

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 6ed o Fawrth 2024 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Idris Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, Lynne Mccrickett, a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is- Gadeirydd John P Jones.**

Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Catrin Jones, Arfon Hughes, Geraint Morgans a John P Roberts.

Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddi-dordeb** am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd** ar y 29ain o Dachwedd ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Gyda maes parcio Neuadd Aberangell, adroddwyd fod cyfarfod wedi bod gyda pherchennog y ty, roedd siom na chafwyd cyfarfod ar y safle gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned yn unol a'r cais. Roedd angen atgoffa.

Roedd y dwr sy'n dod i lawr at iard ty 'Conifers' ac yna i lawr i'r ffordd yn dal i ddigwydd. Roedd y Bwrdd Dwr wedi gwneud gwaith, ond roedd y broblem yn parhau. Gofynnwyd a oedd yna draeniau wedi blocio? Roedd angen ail-edrych ar hyn. Diolchwyd am adroddiad llawn gan Cyng Lynne Mccrickett.

Nid oedd modd gwneud dim gyda parcio o flaen mynediad Ebeneser.

Ynglyn a llwybr ar Dolybont, roedd e-bost Arfon Hughes yn dweud fod Cwmni Nod Glas wedi rhoi hen darmac i lenwi tyllau ar y ffordd i bont gerdded Dolybont yn dilyn sylwadau diweddar - gyda sêl bendith y Cyngor Sir. Diolchwyd yn fawr iawn am hyn. Nodwyd fodd bynnag fod yna angen llenwi rhai tyllau bach ychwanegol.

Roedd ymateb gan Tim Clwyf yr Onnen Cyngor Gwynedd yn dweud na allent ymdrin a hyn oherwydd llwyth gwaith, ac yn awgrymu bod y Cyngor Cymuned ym llogi syrfewr coed, Gwelwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned adnoddau ar gyfer hyn.

O ran materion Cefnffyrdd, nid oedd ymateb i law.

b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd nad oedd unrhyw ddiweddaraid i law.

c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, darllenwyd ymateb pellach y Parc Cenedlaethol dyddiedig 27 Chwefror. Mynegwyd teimladau cryf am y sefyllfa unwaith eto, ond roedd angen parhau y pwyso arnynt. Gofynnwyd pam fod 2 garafan yno.

- d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nid oedd unrhyw ddiweddaraid I law.
- e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – adroddwyd am gyfarfod gyda Bryn Hughes, Peiriannydd Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ar y 7fed o Chwefror, gyda'r Cyng Wyn Lewis, Idris Jones a'r Clerc yn bresennol. (Cadarnhaodd y Clerc na chafodd Cyng Arfon Hughes wybod am y cyfarfod oherwydd dryswch gyda'r cyferiad e-bost) Nid oedd ymateb gan Gyngor Gwynedd hyd yma, a byddai rhaid trafod y tro nesaf.
- f) **Cais am diffibrilator i Lanymawddwy** – adroddodd y Clerc ei fod wedi trafod gyda Chris a Tony Newman a oedd wedi arwain ar y mater yma mewn safleoedd eraill yn y gorffennol. Nodwyd fod bwriad mynd ymlaen efo hyn, ac o bosib y byddai rhaid ystyried cyfraniad o'r Cyngor Cymuned maes o law. Diolchwyd yn fawr iawn iddynt. Byddai rhaid trafod eto.
- g) **Stad Haulfryn, Aberangell / maes parcio Lawnt y Plas** – nodwyd y gohebiaeth diweddaraf gyda Adra. Roedd addewid y byddent yn edrych ar y sefyllfa yn Stad Haulfryn.
- h) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – cadarnhawyd enwau y Cynghorwyr sydd wedi bod ar gyrsiau yn y flwyddyn 2023-24, a byddai rhain yn cael eu hychwanegu i'r Cynllun hyfforddiant sydd ar wefan y Cyngor, ac felly ei ddiweddarau.

5. Materion Cynllunio

Adroddwyd fod un cais wedi ei ddsbarthu ers y tro diwethaf, sef;

NP5/74/464F – Newidiadau i gwrs 'Red Bull Hardline (Mountain Bike) yn cynnwys nodweddion neidio a chwympo newydd – Tir yn Graig Wen, Dinas Mawddwy.

Roedd y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cais.

6. Materion Cyllid.

- a) **Nodwyd balansau cyfrifon y Cyngor** (6.03.24), sef Cyfri Cyfredol £4244.71, Cyfri Claddedigaeth £549.28 Cyfri Cadw £779.71). Rhoddwyd adroddiad manwl gan y Clerc o'r sefyllfa bresennol, a'r costau sy'n gwynebu y Cyngor hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol, cyn ystyried y ceisiadau am arian.

Roedd cydnabyddiaeth o ddiolch am y cyfraniadau i'r neuaddau ers y tro diwethaf.

- b) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Sion Alun Robertrs a'i eilio gan Cyng Lynne Mccrickett, i dalu y canlynol;

E W Owen a'i Chwmni – gwaith PAYE, RTI a P60 am y flwyddyn - £228.00.

Cydnabyddiaeth 4ydd Chwarter y Clerc- £434.95

HMRC ar y cyflog - £108.80.

Costau y Clerc am y flwyddyn (fel cytunwydo'r blaen) - £1250

- c) Roedd y ceisadau canlynol am arian i law, a chytunwyd fel a ganlyn ar gynnig Cyng. Sion Alun Roberts a’l eilio gan Lynne Mccrickett

Cylch Meithrin Dolybont - £300.

Clybiau Ffermwyr Ieuaic Meirion – peidio cyfrannu y tro hwn, ond ystyried eto , yn arbennig o gofio ein bod yn y gorffennol wedi cyfrannu l’r Clwb Lleol yn Dinas.

- d) Trafodwyd fod rhan o ffens bren ym mynwent Dinas wedi cwmpo, (sef oddiar y safle claddu newydd) a bod angen ei hatgyweirio. Trafodwyd y dylid ystyried arbed arian i’r Cyngor a threthdalwyr drwy y Cyngor Cymuned wneud y gwaith ein hunain. Penderfynwyd, ar gynnig Sion Alun Roberts a’l eilio gan Rhys Davies i roi ffens bren post a raelis o’r newydd yno. Cynigiodd Cyng Rhys Davies yn garedig i drefnu cyflenwi y deunyddiau, (ond dywedwyd y byddai y Cyngor Cymuned yn rhoi cyfraniad) a dywedodd John P Jones y byddai yn clirio y ffens sydd wedi cwmpo. Cynigiodd nifer o Gynghorwyr i helpu, a byddai’r Clerc yn cysylltu eto maes o law.
- e) Cadarnhau benodiad Uned Archwilio Cyngor Gwynedd i wneud yr archwiliad mewnol unwaith eto ar gyfer 2023-24.

Hefyd yng nghyswllt materion archwiliad 2023-24, cadarnhawyd y rhestr asedau sy’n cael ei chyflwyno gyda’r archwiliad blynyddol wedi ei ddiweddarau. Roedd y gwerth ariannol yn cynnwys 7 o feinciau ar £400 yr un, sef Dolybont, rhiw Landrin, ger toiledau Dinas, arhosfan rhwng Minllyn a Dinas, ger y gofgolofn, ger cylchfan Mallwyd, a mynent Dinas. Hefyd 7 o hysbysfyrdau ar £350 yr un, sef ar wal Neuadd Dinas, un yn Minllyn ac un yn arhosfan bws Minllyn, o flaen y Brigands, arhosfan bws Aberangell, Blaencywarch a Llanymawddwy. Hefyd 8 o fyrddau gwybodaeth ar £350 yr un, sef maes parcio Bwlch yr Oerddrws, maes parcio Bwlch y Groes, maes parcio Blaencywarch, maes parcio Llanymawddwy, wal y Llew Coch, ger Brigands Mallwyd a ger Neuadd Aberangell.

Byddai’r cyfanswm felly yn £8050.

7. Gohebiaeth.

- a) **Cynllun rhannu cartref Cyngor Gwynedd** – darllenwyd e-bost am y diweddaraf, a rhoddwyd poster i fynny yn y neuadd.
- b) **Biniau baw cwn** – roedd adroddiad gan Cyng Lynne Mccrickett wedi ei ddsbarthu i bawb ymlaenllaw, a oedd yn dangos y gwahoddiad l’r cyhoedd l ddweud ble roeddynt eisiau y biniau, beth oedd y canlyniadau, a’r awgrym o ddau safle, sef ar yr A470 ar dop y llwybr yn arwain l Minllyn, a thro Celyn Brithion. Diolchwyd yn fawr iawn i Lynne. Nodwyd hefyd fod hyn yn broblem rhwng y Ffatri wlan a Maescamlan. Byddai’r Clerc yn pasio hyn ymlaen l’r Cynghorydd Sir sef John P Roberts, a oedd yn cynorthwyo efo hyn.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Nodwyd nifer o faterion drwy e-bost gan y Cyng Arfon Hughes, a chytunwyd ymdrin a’r canlynol;

- Arwyddion Chevron ar Bwlch Oerddrws wedi eu symud unwaith eto ac angen eu hail osod
 - Mae arwydd sbwriel ger y cilfan rhwng Dinas a Minllyn ar yr A470 wedi torri / pydru ac ar lawr.
- b) Cyfeiriwyd at ddwr yn dod i lawr o'r cae oddiar yr Ysgol yn Dinas i'r ffordd, a bod yna dyllau bellach ar y ffordd. Roedd angen ymchwilio i hyn.
- c) Roedd angen nifer o byst pren o'r newydd ar ochr y ffordd sy'n terfynnu a chomin Dolybont. Cynigiodd Cyng Rhys Davies yn gareig iawn i gyflenwi y polion, a byddai Cyng John P Jones yn eu gosod. Diolchwyd yn fawr iawn iddynt.
- d) Roedd draen wedi blocio rhwng Coedcae a Llanymawddwy, ac angen sylw Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.
- e) Roedd angen cael ymateb gan Adran Cefnffyrdd ynglyn a'r goleuadau ar yr A458 ger Nantyrhedydd.
- f) Roedd yna waith atgyweirio enfawr ar y ffordd o Aberangell i Aberllefenni yn dilyn difrod gan loriau coed.
- g) Nodwyd nad oedd llinellau gwyn ar y fynedfa i'r A470 wrth ddod allan o Dinas ger safle y Garej.
- h) Adroddwyd nad oedd y Flexibus yn mynd o Dinas i Machynlleth ar ddydd Sadwrn bellach, ac roedd angen edrych i mewn i hyn.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y CYFARFOD BLYNYDDOL, NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 15fed o Fai 2024 , 7.30y.h.